Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill ar gyfer cyfarfod o’r **CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **NORTH WALES RESIDUAL WASTE JOINT COMMITTEE** are attached.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Head of Legal and Democratic Services**

**AGENDA**

**1 PECYN AGENDA**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

At: Cyng Carolyn Thomas (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Glyn Banks, Richard Dew, Brian Jones, Dafydd Meuirg, Bob Parry, Greg Robbins, Sam Rowlands, Julian Thompson-Hill and Catrin Wager

Swyddog Cyswllt:
Nicola Gittins 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

20th Tachwedd 2019

Annwyl Gynchorwyr

Fe'ch gwahoddir I fynychu cyfarfod Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru a gynhelir am 2.00 pm ar Dydd Iau, 28ain Tachwedd, 2019 yn Venue Cymru, Llandudno LL30 1BB I ystyried yr eitemau canlynol

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

2 **DATGAN CYSYLLTIAD**

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw ddatganiadau buddiant.

3 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 8)

**Pwrpas:** I gadarnhau fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2019.

4 **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

**Pwrpas:** Ystyried unrhyw faterion a gododd o'r cyfarfod blaenorol.

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cygnor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

| | | |
|---|---|---|
| 5 | **DIWEDDARIAD COMISIYNU A GWEITHREDIADAU** (Tudalennau 9 - 12) | |

**Pwrpas:** Diweddaru'r Aelodau ar gynnydd y broses comisiynu Parc adfer ac ar weithrediadau, yn cynnwys cludiant a chyflenwadau gwastraff i Barc Adfer.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyrir bod yr eitemau canlynol wedi'u heithrio yn rhinwedd Paragraff (au) 14 Rhan 4 o 12A Rhestredig Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd)

Mae'r adroddiadau yn cynnwys manylion yn ymwneud â materion ariannol y 5 cyngor. Mae'r manylion hynny yn fasnachol sensitif ac mae diddordeb y cyhoedd o ran gwarchod y sefyllfa fasnachol honno yn gorbwyso budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth yn ystod oes y contract

6 **DIWEDDARIAD ARIANNOL** (Tudalennau 15 - 20)

**Pwrpas:** Diweddaru'r Aelodau ar faterion ariannol, anfonebu a thaliadau parthed y 2 fid cyntaf o wastraff yn cael i ddanfon i Barc Adfer

7 **ADRODDIAD CYTUNDEBOL** (Tudalennau 21 - 26)

**Pwrpas:** Diweddaru'r Aelodau ar y seflyllfa presennol yn ymwneud a faterion cytundebol yng nghytundeb Parc Adfer.

8 **UNRHYW FATER ARALL**

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Yn gywir

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

County Hall, Mold. CH7 6NA
Tel. 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.flintshire.gov.uk
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NR
Ffôn 01352 702400 DX 708591 Mold 4
www.siryfflint.gov.uk

The Council welcomes correspondence in Welsh or English
Mae'r Cyngor yn croesawau gohebiaeth yn y Cymraeg neu'r Saesneg

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

## CYD BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

Dydd Mawrth 11ed Mehefin 2019 am 3:30pm
Optic Glydwr, Llanelwy

---

**YN BRESENNOL**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Brian Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Greg Robins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cynghorydd Carolyn Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Gareth Wyn Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Cynghorydd Bob Parry | Cyngor Sir Ynys Môn |

**HEFYD YN BRESENNOL:**

**Cyngor Sir Fflint**
Colin Everett (Prif Weithredwr Arweiniol) a Gareth Owens (Prif Swyddog – Llywodraethu)

**Cyngor Sir Dinbych**
Tara Dumas (Rheolwr Gwastraff ac Ailgylchu)

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Andrew Wilkinson (Pennaeth Gwasanaethau Bro)

**Cyngor Gwynedd**
Steffan Jones (Rheolwr Bwrdeistrefol a Phriffyrdd)
**Cyngor Ynys Mô**
Meirion Edwards (Prif Swyddog Rheoli Gwastraff)

**Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**
Steffan Owen (Rheolwr Contract Rhanbarthol)

DRAFT

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gary Ferguson (Cyngor Sir y Fflint), Lisa Brownbiull (Cyngor Sir y Fflint), Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Tony Ward (Cyngor Sir Ddinbych), Cynghorydd Julian Thompson-Hill (Cyngor Sir Ddinbych), Cynghorydd Richard Dew (Cyngor Ynys Môn)

2. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

3. **ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD I'R CYD-BWYLLGOR**

Fe gynigwyd Cynghorydd Brian Jones gan Gynhorydd Carolyn Thomas fel Cadeirydd i'r Cyd Bwyllgor. Fe eilwyd gan Cynghorydd Bob Parry.

Bu i Colin Everett ddiolch i Cynghordydd Brian Jones am cymryd y rôl ymlaen.

Fe gynigwyd Cynghorydd Greg Robbins gan Gynhorydd Brian Jones fel Is-gadeirydd i'r Cyd Bwyllgor. Fe eilwyd gan Cynghorydd Carolyn Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

**(a)** *I benodi Cynghorydd Brian Jones fel Cadeirydd y Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru, a phenodi Cynghorydd Greg Robbins fel Is-gadeirydd y Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru*

4. **CYMERADWYO COFNODION BLAENOROL**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o Gyd Bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 26ed Mawrth 2019 i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor.

Nodwyd bod enwau'r Aelodau a fynychwyd ar ran Gwynedd ac Ynys Môn yn anghywir yn y cofnodion. Bu i Cynghorydd Gareth Wyn Griffith fynychu ar ran Gwynedd a Chynghorydd Bob Parry ar gyfer Ynys Môn.

5. **MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6. **CYFRIFON BLYNYDDOL**

Cyflwynodd Steffan Owen adroddiad Cyfrifon Blynyddol, yn cynnwys mynd trwy costau yr Awdurdod Arweiniol (Cyngor Sir y Fflint.

Ni chodwyd unrhyw sylwadau.

**PENDERFYNWYD:**

*(a)* *Bod y Cyd-abwyllgor yn cymeradwyo'r Adroddiad Ariannol Blynyddol ar gyfer y blwyddyn hyd at 31ain Mawrth 2019.*

7. **EITEMAU WEDI EU HEITHRIO: DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, (ADRAN 100A AC ATODLEN 12A (MYNEDIAD AT WYBODAETH)**



DRAFT

**PENDERFYNWYD:** *gwahardd y Cyhoedd a'r Wasg o'r cyfarfod o dan ddarpariaeth Adran 100A o'r Ddeddf uchod er mwyn cynnal trafodaeth ar yr eitemau canlynol gan y gallant arwain at ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 14 o Ran 4 Atodlen 12A y Ddeddf, ac o safbwynt buddiant y cyhoedd yn yr holl amgylchiadau perthnasol bod cynnal yr eithriad yn gorbwyso datgelu'r wybodaeth.*

**DIWEDDARIAD ADEILADU**

Bu i Steffan Owen and Colin Everett ddiweddaru'r Cyd-Bwyllgor ar waith adeiladu Parc Adfer a paratoadau ar gyfer Comisiynu. Fe nodwyd bod safonau Iechyd a Diolgelwch wedi'i gadw i lefelau uchel ar y safle, a bod y rhaglen mwyaf ddiweddar yn nodi y by Parc Adfer yn medru derbyn gwastraff i'w drin hwyr ym mis Gorffennaf.

Fe gynhaliwyd drafodaeth ar baratoadau ar gyfer danfod gwastraff i Barc Adfer, wrth nodi nad nad oedd dyddiad pendant wedi'i dderbyn hyd hyn hyn.

**PENDERFYNWYD:**

*(a) Nodi'r adroddiad.*

8. **DIWEDDARIAD PARATOADAU COMISIYNU**

Cyflwynodd Steffan Owen adroddiad i'r Cyd Bwyllgor yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar y baratoadau ar gyfer y broses Comisiynu. Bu i'r adroddiad nodi y gwaith yn y meusydd isod:-

- Staffio ac adnoddau;
- Anfonebu, llîf taliadau a rheoli data;
- Paratoadau gweithredol;
- Cytundeb(au) cludiant, a
- Paratoadau gyda WTI.

**PENDERFYNWYD:**

(a) *Nodi'r adroddiad*

9. **ADRODDIAD CYTUNDEB CLUDIANT A GORSAFOEDD TROSGLWYDDO GWASTRAFF**

Aeth Steffan Owen drwy'r adroddiad, yn amlinellu datblygiadau yn yr awdurdodau partner ar orsafoedd trosglwyddo gwastraff (neu gwasanaeth trosglwyddo gwastraff). Bu i bob awdurdod amlinellu ei baratoadau a'i gynlluniau ar gyfer dechrau Comisiynu.

Nodwyd Conwy a Dinbych eu bod wedi gweithio mewn partneriaeth ac wedi gwobrwyo cytundeb i gwmni priefat, Thorncliffe's ar gyfer derbyn gwastraff yr awdurdodau er mwyn cludo i Barc Adfer. Fydd y cytundeb yma yn ei le tra bod ei gynlluniau hir dymor ar gyfer gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yn cael ei ddatblygu.



DRAFT

Fe fydd Gwynedd yn parhau i ddefnyddio ei ddau orsaf trosglwyddo gwastraff yng Nghaernarfon a Harlech.

Cynhaliwyd trafodaeth ar gludiant gwastraff yr awdurdodau partner. Nodwyd Steffan Owen bod LWT Contractors wedi'w gwobrwyo cytundeb i gludo gwastraff Conwy a Sir Ddinbych i Barc Adfer.

Hefyd fe drafodwyd opsiynau ar gyfer cludo gwastraff Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD:**

*(a) Nodi cynnwys yr adroddiad; a*

*(b) Cytuno ar wasanaeth cludo gwastraff Ynys Môn, yn atebol i gymeradwyiaeth y Bwrdd Prosiect ar y manylion.*

10. **ADRODDIAD CRONFA BUDD CYMUNEDOL**

Cyflwynodd Colin Everett adroddiad i'r Cyd Bwyllgor yn rhoi cefndir ar gynnydd ofewn Sir y Fflint ar ddatblygiad y gronfa. Fe nodwyd fod y gronfa yn cael ei ddatblygu a ni fydd yn debygol o fod yn barod am geisiadau tan canol 2020.

11. **ARIAN LLYWODRAETH CYMRU (AR LAFAR)**

Cyflwynodd Colin Everett diweddariad anffurfiol ar grant refeniw y Llywodraeth Cymru. Fe drafodwyd cynllunio cyllidebau ofewn yr awdurdodau partner yn sgil trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru.

12. **UNRHYW FATER ARALL**

Fe awgrymwyd i gyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor cael ei gynnal ym Mis Hydref 2019.

(Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm)

DRAFT

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

**EITEM AGENDA RHIF: 5**

**ADRODDIAD I:** **CYD-BWYLLGOR NWRWTP**

**DYDDIAD:** **28 TACHWEDD 2019**

**ADRODDIAD GAN:** **Y RHEOLWR CONTRACT**

**TESTUN:** **DIWEDDARIAD Comisiynu a Gweithrediadau**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru'r Cydbwyllgor ar y cynnydd o ran Comisiynu ac ar fisoedd cynnar gweithrediadau'r Parc Adfer.

## 2. CEFNDIR

2.1. Adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor ar 11 Mehefin 2019 bod Wheelabrator Technologies Inc (WTI) wedi cael hysbysiad ffurfiol o gychwyn y "Profion Parodrwydd" (cychwyn y broses gomisiynu) gan eu contractwyr Peirianneg, Caffael ac Adeiladu (EPC), CNIM, gyda dyddiad disgwyliedig i gyflenwi'r gwastraff cyntaf ganol mis Gorffennaf 2019.

2.2. Cyflawnwyd y "Parodrwydd" yn ffurfiol ar ddydd Sadwrn 24 Awst 2019 (dyma pryd y cyhoeddodd yr Ardystiwr Annibynnol y "Tystysgrif Prawf Parodrwydd"), a oedd yn golygu mai diwrnod cyntaf y cyflenwadau gwastraff gan yr awdurdodau partner oedd Dydd Mawrth, 27 Awst 2019. Roedd ar y dydd Mawrth yn hytrach na'r Dydd Llun oherwydd Gŵyl y Banc yr wythnos honno, a theimlwyd, o ystyried mai hwn oedd y diwrnod cyntaf, y byddai'n well bod ar ddiwrnod gwaith arferol yn hytrach nag ar ŵyl y banc.

2.3. Isod, ceir crynodeb o'r cynnydd ar Gomisiynu'r Parc Adfer a gweithrediadau ers y cyflenwadau cyntaf o wastraff.

## 3. YSTYRIAETHAU

<u>Comisiynu</u>

3.1. Pan fydd cyfleusterau fel Parc Adfer yn cyflawni "Parodrwydd", mae hyn yn golygu y bernir eu bod yn gallu derbyn a thrin gwastraff. Fodd bynnag, nid yw'n golygu bod y cyfleuster yn gyflawn. Ar y cam Comisiynu, gall fod rhannau o'r safle/ cyfleuster nad ydynt yn gwbl gyflawn, ond bernir ei fod yn ddigon cyflawn i'r gwaith a'r broses allu gweithredu'n ddiogel. Yn ystod y cam Comisiynu, gall y safle dderbyn a thrin gwastraff, ond mae'n parhau i fod dan reolaeth contractwyr yr EPC, CNIM.

3.2. Yn ystod Comisiynu, mae'r safle'n gweithredu o dan drefn profion diogelwch, dibynadwyedd a pherfformiad trwyadl. Yn ystod y cyfnod hwn, gweithredir y safle o ddydd i ddydd gan WTI (o dan eu cangen weithredol pwrpas arbennig ar gyfer y Parc Adfer, sef Parc Adfer Operations Ltd (PAOL)); fodd bynnag, mae'r contractwr EPC yn mynd trwy broses o "drosglwyddo" i PAOL gan gynnwys hyfforddi staff, diogelwch a gweithdrefnau gweithredu ayb.

3.3. Unwaith y bydd y drefn profi diogelwch, dibynadwyedd a pherfformiad wedi'i chwblhau a bod yr ardystiwr annibynnol yn fodlon â chasgliad y broses honno, dylid cymeradwyo cwblhau'r gwaith. Bryd hynny, bydd y cyfleuster yn cyflawni "Derbyn". O safbwynt gweithredol yn unig, ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar yr awdurdodau partner gan y bydd y gwastraff yn parhau i gael ei ddanfon i'r Parc Adfer fel y mae ar hyn o bryd yn ystod y cyfnod Comisiynu, ond bydd y contract yn mynd i mewn i'r cam "Gwasanaethau" yn ffurfiol, a bydd y contract yn dod i rym yn llawn.

3.4. Mae comisiynu wedi bod yn symud ymlaen yn dda ar y safle gyda pherfformiad pob agwedd ar y broses yn perfformio'n dda, a monitro allyriadau yn dangos bod allyriadau wedi bod yn rhwydd o fewn y terfynau a ganiateir.

3.5. Mae'r Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA) wedi bod yn mynd trwy broses brofi drylwyr i wirio ei fod o ansawdd sy'n ddigon da i gael ei ailgylchu. Ar adeg ysgrifennu, yn yr holl brofion a gynhaliwyd hyd yma, pasiodd y deunydd IBA y safonau ansawdd, a disgwylir iddo ddechrau cael ei brosesu i'w ailgylchu yn y dyfodol agos.

3.6. Y dyddiad rhaglen ddiweddaraf a ddarperir gan CNIM ar gyfer cyflawni "Derbyn" ac i'r Parc Adfer fynd i mewn i'r cyfnod Wasanaethau yw 9 Rhagfyr 2019.

<u>Gwyro Gwastraff</u>

3.7. Yn gyffredinol, mae'r broses Gomisiynu wedi bod yn dod yn ei blaen yn dda, a'r unig broblem sydd wedi effeithio ar yr dderbyn gwastraff yr awdurdod oedd Parc Adfer yn gorfod cau yn anisgwyl er mwyn trwsio diffygion yn y sustem ddŵr. Golygir hyn y bu angen dargyfieirio gwastraff y bartneriaeth rhwng Ddydd Mawrth 15eg Hydref a Dydd Llun 21ain Hydref.

3.8. Yn dilyn gwaith atgyweirio a phrofion, roedd y Parc Adfer yn gallu derbyn gwastraff unwaith eto ar ddydd Mawrth 22 Hydref, sy'n golygu fod gwastraff wedi ei ddargyfeirio i safleoedd eraill am 5 diwrnod i gyd (gan gynnwys cyflenwadau Dydd Sadwrn).

3.9. Er nad yw unrhyw barti fyth yn croesawu digwyddiad dargyfeirio, nid yw digwyddiadau dargyfeirio o'r fath yn gwbl annisgwyl, o ystyried bod y cyfleuster yn cael ei gomisiynu a'i brofi; mae cymhlethdodau a phroblemau yn rhan arferol o'r cyfnod hwn. Roedd Cynllun At Rhaid wedi'i greu ar gyfer y math ddigwyddiadau a weithredwyd.

3.10. Mae'n bwysig nodi hefyd bod WTI/PAOL, yr awdurdodau partner, y cludwyr a gweithredwyr y safleoedd trosglwyddo gwastraff i gyd wedi cydweithio'n dda er mwyn sicrhau lleoliadau wrth gefn, ac aethpwyd â chyflenwadau i'r lleoliadau hynny ar fyr rybudd. Hoffai'r Tîm Rheoli Contractau ddiolch i'r holl awdurdodau partner am eu cefnogaeth a'u gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.

3.11. Ar ddiwrnod cyntaf y gwyriad (dydd Mercher 16 Hydref), oherwydd y rhybudd hwyr, dim ond rhywfaint o gapasiti tunelledd gwastraff yr oedd WTI wedi gallu ei sicrhau â chyflenwyr gwahanol trydydd parti, gyda thrin gwastraff (fel Troi Gwastraff yn Ynni) fel y gyrchfan. Yn anffodus, roedd hyn yn golygu bod Gwynedd ac Ynys Môn wedi gorfod anfon eu gwastraff gweddilliol i safle tirlenwi (safle tirlenwi Hafod, ger Wrecsam) am un diwrnod. Am weddill y cyfnod dargyfeirio gwastraff (4 diwrnod), dargyfeiriwyd yr holl wastraff partneriaeth o safleoedd tirlenwi.

3.12. Fel y nodwyd uchod, ailddechreuodd y Parc Adfer dderbyn gwastraff ar ddydd Mawrth 22 Hydref 2019, a bu'n gweithredu heb unrhyw broblemau o bwys ers hynny.

<u>Gweithrediadau</u>
3.13. Fel y nodwyd uchod, dechreuodd cyflenwadau gwastraff yr awdurdodau partner (Gwastraff Contract) ar 27 Awst 2019. Dim ond Gwastraff Contract a dderbyniwyd yn y Parc Adfer yn ystod yr wythnos gyntaf honno. Dechreuodd cyflenwi gwastraff Trydydd Parti (masnachol) ar y safle yr wythnos ganlynol ar ddydd Llun 2 Medi. Dechreuwyd y broses ei hun hefyd, a dechreuwyd trin gwastraff ar 2 Medi.

3.14. Mae'r gweithrediadau ar y safle a'r rhyngwyneb rhwng yr awdurdodau partner, cludwyr a'r Parc Adfer wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Cafwyd nifer fach iawn o gyflenwadau lle y cyflenwyd gwastraff nad oedd yn cwrdd â meini prawf derbyn gwastraff WTI yn ystod yr wythnos gyntaf (eitemau swmpus), ond dyma yw'r unig broblem o ran derbyn gwastraff hyd yn hyn, gyda'r Awdurdodau Partner yn ymgyfarwyddo â'r patrwm gweithredol.

3.15. Nododd WTI bod cyfansoddiad y gwastraff/ gwerth caloriffig (cv) y gwastraff o fewn y disgwyliadau.

3.16. Un maes lle profwyd rhai mân broblemau, ddim yn annisgwyl, yw mewn perthynas â'r amser a gymerir i dderbyn, pwyso i mewn, gwagio a phwyso allan gyflenwadau'r cerbydau, a elwir yn "amseroedd troad" sydd yn fetrig allweddol. Mae amseroadd troad ar gyfartaledd wedi bod yn dda ar y cyfan hyd yn hyn. Bu nifer fach o achosion lle bu oedi i gerbydau ar y safle tra bod gweithdrefnau gweithdredol yn cael ei wella, gyrrwyr yn dod i arfer â'r safle a sustemau rheolaethol yn cael ei rhoid yn ei le ar gyfer gwaith papur ddyletswydd gofal. Mae WTI a'r Awdurdod wedi bod yn gweithio'n adeiladol gyda'i gilydd i wella amseroedd troad.

<u>Cludo</u>
3.17. Cludir gwastraff yr awdurdodau partner i'r safle gan amrywiaeth o gludwyr. Mae gwastraff Ynys Môn yn cael ei ddanfon i'r safle gan Potters Group,

Gwynedd yn ymgymryd â'u cludiant eu hunain, ac mae Conwy, Sir Ddinbych a chyfran o wastraff Sir y Fflint yn cael ei ddanfon gan Gontractwyr LWT. Mae peth o wastraff Sir y Fflint yn cael ei ddanfon yn uniongyrchol i'r safle (e.e. rhai o'r cerbydau casglu sbwriel).

3.18. At ei gilydd, mae'r holl wasanaethau cludo wedi bod yn llwyddiannus ac yn ddi-drafferth i raddau helaeth. Bu nifer fach o fân broblemau mewn perthynas â chiwio i fynd i'r safle a'r amser a gymerwyd i wagio eu llwythi ar y safle (fel y nodwyd yn 3.16 uchod), ond mae'r rhain wedi bod yn ddibwys ar y cyfan a gwnaed y mwyafrif o'r gwaith cyflenwi'n llyfn. Fel y nodwyd uchod, mae WTI wedi bod yn gweithio i leihau unrhyw darfu ar gyflenwadau i'r safle, gan sicrhau bod Gwastraff Contract yn cael ei flaenoriaethu.

Crynodeb

3.19. I grynhoi, mae Comisiynu'r Parc Adfer wedi bod yn dod yn ei flaen yn dda ac er gwaethaf rhai "trafferthion cychwynnol" bach iawn, mae'r gweithrediadau cynnar wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Disgwylir trosglwyddiad di-dor a di-drafferth i wasanaethau llawn ym mis Rhagfyr 2019.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae goblygiadau ariannol y Contract wedi cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor o'r blaen.

## 6. EFFAITH GWRTH-DLODI

Amherthnasol

## 7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Amherthnasol

## 8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Amherthnasol

## 9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1. Fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad hwn

## 10. ANGEN YMGYNGHORIAD

Dim.

## 11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL

11.1. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen
Rheolwr Contract
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

NWRWTP
North Wales Residual Waste Treatment Project

CYFRINACHOL

**EITEM AGENDA RHIF: 6**

**ADRODDIAD I:** **CYD-BWYLLGOR NWRWTP**

**DYDDIAD:** **28 TACHWEDD 2019**

**ADRODDIAD GAN:** **Y RHEOLWR CONTRACT**

**TESTUN:** **DIWEDDARIAD ARIANNOL (EITEM RHAN 2)**

## Eitem Rhan 2

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru'r Cydbwyllgor ar y cynnydd o ran Comisiynu ac ar fisoedd cynnar gweithrediadau'r Parc Adfer.

### 2. CEFNDIR

2.1. Adroddwyd i'r Cyd-bwyllgor ar 11 Mehefin 2019 bod Wheelabrator Technologies Inc (WTI) wedi cael hysbysiad ffurfiol o gychwyn y "Profion Parodrwydd" (cychwyn y broses gomisiynu) gan eu contractwyr Peirianneg, Caffael ac Adeiladu (EPC), CNIM, gyda dyddiad disgwyliedig i gyflenwi'r gwastraff cyntaf ganol mis Gorffennaf 2019.

2.2. Cyflawnwyd y "Parodrwydd" yn ffurfiol ar ddydd Sadwrn 24 Awst 2019 (dyma pryd y cyhoeddodd yr Ardystiwr Annibynnol y "Tystysgrif Prawf Parodrwydd"), a oedd yn golygu mai diwrnod cyntaf y cyflenwadau gwastraff gan yr awdurdodau partner oedd Dydd Mawrth, 27 Awst 2019. Roedd ar y dydd Mawrth yn hytrach na'r Dydd Llun oherwydd Gŵyl y Banc yr wythnos honno, a theimlwyd, o ystyried mai hwn oedd y diwrnod cyntaf, y byddai'n well bod ar ddiwrnod gwaith arferol yn hytrach nag ar ŵyl y banc.

2.3. Isod, ceir crynodeb o'r cynnydd ar Gomisiynu'r Parc Adfer a gweithrediadau ers y cyflenwadau cyntaf o wastraff.

### 3. YSTYRIAETHAU

<u>Comisiynu</u>

3.1. Pan fydd cyfleusterau fel Parc Adfer yn cyflawni "Parodrwydd", mae hyn yn golygu y bernir eu bod yn gallu derbyn a thrin gwastraff. Fodd bynnag, nid yw'n golygu bod y cyfleuster yn gyflawn. Ar y cam Comisiynu, gall fod rhannau o'r safle/ cyfleuster nad ydynt yn gwbl gyflawn, ond bernir ei fod yn ddigon cyflawn i'r gwaith a'r broses allu gweithredu'n ddiogel. Yn ystod y cam Comisiynu, gall y safle dderbyn a thrin gwastraff, ond mae'n parhau i fod dan reolaeth contractwyr yr EPC, CNIM.

3.2. Yn ystod Comisiynu, mae'r safle'n gweithredu o dan drefn profion diogelwch, dibynadwyedd a pherfformiad trwyadl. Yn ystod y cyfnod hwn, gweithredir y safle o ddydd i ddydd gan WTI (o dan eu cangen weithredol pwrpas arbennig ar gyfer y Parc Adfer, sef Parc Adfer Operations Ltd (PAOL)); fodd bynnag, mae'r contractwr EPC yn mynd trwy broses o "drosglwyddo" i PAOL gan gynnwys hyfforddi staff, diogelwch a gweithdrefnau gweithredu ayb.

3.3. Unwaith y bydd y drefn profi diogelwch, dibynadwyedd a pherfformiad wedi'i chwblhau a bod yr ardystiwr annibynnol yn fodlon â chasgliad y broses honno, dylid cymeradwyo cwblhau'r gwaith. Bryd hynny, bydd y cyfleuster yn cyflawni "Derbyn". O safbwynt gweithredol yn unig, ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar yr awdurdodau partner gan y bydd y gwastraff yn parhau i gael ei ddanfon i'r Parc Adfer fel y mae ar hyn o bryd yn ystod y cyfnod Comisiynu, ond bydd y contract yn mynd i mewn i'r cam "Gwasanaethau" yn ffurfiol, a bydd y contract yn dod i rym yn llawn.

3.4. Mae comisiynu wedi bod yn symud ymlaen yn dda ar y safle gyda pherfformiad pob agwedd ar y broses yn perfformio'n dda, a monitro allyriadau yn dangos bod allyriadau wedi bod yn rhwydd o fewn y terfynau a ganiateir.

3.5. Mae'r Lludw Gwaelod Llosgydd (IBA) wedi bod yn mynd trwy broses brofi drylwyr i wirio ei fod o ansawdd sy'n ddigon da i gael ei ailgylchu. Ar adeg ysgrifennu, yn yr holl brofion a gynhaliwyd hyd yma, pasiodd y deunydd IBA y safonau ansawdd, a disgwylir iddo ddechrau cael ei brosesu i'w ailgylchu yn y dyfodol agos.

3.6. Y dyddiad rhaglen ddiweddaraf a ddarperir gan CNIM ar gyfer cyflawni "Derbyn" ac i'r Parc Adfer fynd i mewn i'r cyfnod Wasanaethau yw 9 Rhagfyr 2019.

Gwyro Gwastraff

3.7. Yn gyffredinol, mae'r broses Gomisiynu wedi bod yn dod yn ei blaen yn dda, a'r unig broblem sydd wedi effeithio ar yr dderbyn gwastraff yr awdurdod oedd Parc Adfer yn gorfod cau yn anisgwyl er mwyn trwsio diffygion yn y sustem ddŵr. Golygir hyn y bu angen dargyfieirio gwastraff y bartneriaeth rhwng Ddydd Mawrth 15eg Hydref a Dydd Llun 21ain Hydref.

3.8. Yn dilyn gwaith atgyweirio a phrofion, roedd y Parc Adfer yn gallu derbyn gwastraff unwaith eto ar ddydd Mawrth 22 Hydref, sy'n golygu fod gwastraff wedi ei ddargyfeirio i safleoedd eraill am 5 diwrnod i gyd (gan gynnwys cyflenwadau Dydd Sadwrn).

3.9. Er nad yw unrhyw barti fyth yn croesawu digwyddiad dargyfeirio, nid yw digwyddiadau dargyfeirio o'r fath yn gwbl annisgwyl, o ystyried bod y cyfleuster yn cael ei gomisiynu a'i brofi; mae cymhlethdodau a phroblemau yn rhan arferol o'r cyfnod hwn. Roedd Cynllun At Rhaid wedi'i greu ar gyfer y math ddigwyddiadau a weithredwyd.

CYFRINACHOL

3.10. Mae'n bwysig nodi hefyd bod WTI/PAOL, yr awdurdodau partner, y cludwyr a gweithredwyr y safleoedd trosglwyddo gwastraff i gyd wedi cydweithio'n dda er mwyn sicrhau lleoliadau wrth gefn, ac aethpwyd â chyflenwadau i'r lleoliadau hynny ar fyr rybudd. Hoffai'r Tîm Rheoli Contractau ddiolch i'r holl awdurdodau partner am eu cefnogaeth a'u gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw.

3.11. Ar ddiwrnod cyntaf y gwyriad (dydd Mercher 16 Hydref), oherwydd y rhybudd hwyr, dim ond rhywfaint o gapasiti tunelledd gwastraff yr oedd WTI wedi gallu ei sicrhau â chyflenwyr gwahanol trydydd parti, gyda thrin gwastraff (fel Troi Gwastraff yn Ynni) fel y gyrchfan. Yn anffodus, roedd hyn yn golygu bod Gwynedd ac Ynys Môn wedi gorfod anfon eu gwastraff gweddilliol i safle tirlenwi (safle tirlenwi Hafod, ger Wrecsam) am un diwrnod. Am weddill y cyfnod dargyfeirio gwastraff (4 diwrnod), dargyfeiriwyd yr holl wastraff partneriaeth o safleoedd tirlenwi.

3.12. Fel y nodwyd uchod, ailddechreuodd y Parc Adfer dderbyn gwastraff ar ddydd Mawrth 22 Hydref 2019, a bu'n gweithredu heb unrhyw broblemau o bwys ers hynny.

Gweithrediadau

3.13. Fel y nodwyd uchod, dechreuodd cyflenwadau gwastraff yr awdurdodau partner (Gwastraff Contract) ar 27 Awst 2019. Dim ond Gwastraff Contract a dderbyniwyd yn y Parc Adfer yn ystod yr wythnos gyntaf honno. Dechreuodd cyflenwi gwastraff Trydydd Parti (masnachol) ar y safle yr wythnos ganlynol ar ddydd Llun 2 Medi. Dechreuwyd y broses ei hun hefyd, a dechreuwyd trin gwastraff ar 2 Medi.

3.14. Mae'r gweithrediadau ar y safle a'r rhyngwyneb rhwng yr awdurdodau partner, cludwyr a'r Parc Adfer wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Cafwyd nifer fach iawn o gyflenwadau lle y cyflenwyd gwastraff nad oedd yn cwrdd â meini prawf derbyn gwastraff WTI yn ystod yr wythnos gyntaf (eitemau swmpus), ond dyma yw'r unig broblem o ran derbyn gwastraff hyd yn hyn, gyda'r Awdurdodau Partner yn ymgyfarwyddo â'r patrwm gweithredol.

3.15. Nododd WTI bod cyfansoddiad y gwastraff/ gwerth caloriffig (cv) y gwastraff o fewn y disgwyliadau.

3.16. Un maes lle profwyd rhai mân broblemau, ddim yn annisgwyl, yw mewn perthynas â'r amser a gymerir i dderbyn, pwyso i mewn, gwagio a phwyso allan gyflenwadau'r cerbydau, a elwir yn "amseroedd troad" sydd yn fetrig allweddol. Mae amseroadd troad ar gyfartaledd wedi bod yn dda ar y cyfan hyd yn hyn. Bu nifer fach o achosion lle bu oedi i gerbydau ar y safle tra bod gweithdrefnau gweithdredol yn cael ei wella, gyrrwyr yn dod i arfer â'r safle a sustemau rheolaethol yn cael ei rhoid yn ei le ar gyfer gwaith papur ddyletswydd gofal. Mae WTI a'r Awdurdod wedi bod yn gweithio'n adeiladol gyda'i gilydd i wella amseroedd troad.

Cludo

3.17. Cludir gwastraff yr awdurdodau partner i'r safle gan amrywiaeth o gludwyr. Mae gwastraff Ynys Môn yn cael ei ddanfon i'r safle gan Potters Group,





CYFRINACHOL

Gwynedd yn ymgymryd â'u cludiant eu hunain, ac mae Conwy, Sir Ddinbych a chyfran o wastraff Sir y Fflint yn cael ei ddanfon gan Gontractwyr LWT. Mae peth o wastraff Sir y Fflint yn cael ei ddanfon yn uniongyrchol i'r safle (e.e. rhai o'r cerbydau casglu sbwriel).

3.18. At ei gilydd, mae'r holl wasanaethau cludo wedi bod yn llwyddiannus ac yn ddi-drafferth i raddau helaeth. Bu nifer fach o fân broblemau mewn perthynas â chiwio i fynd i'r safle a'r amser a gymerwyd i wagio eu llwythi ar y safle (fel y nodwyd yn 3.16 uchod), ond mae'r rhain wedi bod yn ddibwys ar y cyfan a gwnaed y mwyafrif o'r gwaith cyflenwi'n llyfn. Fel y nodwyd uchod, mae WTI wedi bod yn gweithio i leihau unrhyw darfu ar gyflenwadau i'r safle, gan sicrhau bod Gwastraff Contract yn cael ei flaenoriaethu.

Crynodeb

3.19. I grynhoi, mae Comisiynu'r Parc Adfer wedi bod yn dod yn ei flaen yn dda ac er gwaethaf rhai "trafferthion cychwynnol" bach iawn, mae'r gweithrediadau cynnar wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan. Disgwylir trosglwyddiad di-dor a di-drafferth i wasanaethau llawn ym mis Rhagfyr 2019.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Mae goblygiadau ariannol y Contract wedi cael eu hadrodd i'r Cyd-bwyllgor o'r blaen.

## 6. EFFAITH GWRTH-DLODI

Amherthnasol

## 7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL

Amherthnasol

## 8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Amherthnasol

## 9. GOBLYGIADAU PERSONÉL

9.1. Fel y disgrifir yng nghorff yr adroddiad hwn

## 10. ANGEN YMGYNGHORIAD

Dim.

## 11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL

11.1. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad.

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

CYFRINACHOL

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen
Rheolwr Contract
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk

CYFRINACHOL

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol

**NWRWTP**
North Wales Residual Waste Treatment Project

CYFRINACHOL

**<u>EITEM AGENDA RHIF: 7</u>**

**ADRODDIAD I:** **<u>CYD-BWYLLGOR NWRWTP</u>**

**DYDDIAD:** **<u>28 TACHWEDD 2019</u>**

**ADRODDIAD GAN:** **<u>Y RHEOLWR CONTRACT</u>**

**TESTUN:** **<u>ADRODDIAD CONTRACTIOL WEDI'I DDIWEDDARU (EITEM RHAN 2)</u>**

## Eitem Rhan 2

### 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Diweddaru'r Cyd-bwyllgor ar faterion contractiol mewn perthynas â'r contract Parc Adfer.

### 2. CEFNDIR

2.1. Fel yr adroddwyd yn eitem 5 ar yr agenda, cafwyd y cyflenwad cyntaf o Wastraff Contract i'r Parc Adfer ar 27 Awst 2019. Mae'r cyfleuster wedi bod mewn Comisiwn ers yr amser hwnnw.

2.2. Mae nifer fawr o safonau perfformiad y mae'n rhaid i WTI eu bodloni fel rhan o'u rhwymedigaethau contractiol, ac un hanfodol o safbwynt yr awdurdodau partner yw'r amser a gymerir i dderbyn, pwyso i mewn, gwagio a phwyso allan cyflenwadau cerbydau, a elwir yn "amseroedd troad". Mae hon yn fetrig bwysig i'w mesur i'r awdurdodau, gan ei bod yn bwysig lleihau'r amser a gymerir i gerbydau adael gwastraff yn y Parc Adfer a gadael y safle er mwyn gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau cludo a chasglu gwastraff.

2.3. Fel yr adroddwyd yn eitem 5 uchod ar yr agenda, bu nifer fach o achosion lle bu oedi i gerbydau ar y safle. Ar y cyfan, ni fu'r rhain yn sylweddol a gallent gael eu priodoli i "drafferthion cychwynnol". Fodd bynnag, mae'r Bartneriaeth wedi cychwyn trafodaethau contractiol gyda WTI mewn perthynas â'r safon perfformiad contractiol ar gyfer "amseroedd troad". Amlinellir y trafodaethau mewn perthynas â hyn yn 3.1 i 3.6 isod.

2.4. Hysbysodd WTI y Bartneriaeth eu bod yn ceisio cynyddu capasiti tunelledd uchaf y cyfleuster o 200,000 tunnell y flwyddyn (200 ktpa) i 232ktpa. O dan y contract, mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod i unrhyw newidiadau i'r Caniatâd Cynllunio neu'r Drwydded Amgylcheddol. Gyda hyn mewn golwg, bu WTI mewn trafodaethau â'r Awdurdod Cynllunio mewn perthynas â'r Caniatâd Cynllunio, a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn

perthynas â'r Drwydded Amgylcheddol. Amlinellir manylion pellach yn 3.7 i 3.12 isod.

2.5. Yn ddiweddar, cysylltodd contractwr Powys, Potters Waste Management, â’r Rheolwr Contract, i ofyn a fyddai'r Bartneriaeth yn barod i ymrwymo i gontract i dderbyn gwastraff Gogledd Powys. Rhoddir mwy o fanylion am hyn yn 3.13 i 3.15 isod.

## 3. YSTYRIAETHAU

Trafodaethau Amser Troad

3.1. Fel yr amlinellwyd yn 2.2 uchod, mae'r Bartneriaeth wedi cychwyn trafodaethau contractiol gyda WTI mewn perthynas â'r safon perfformiad contractiol ar gyfer “amseroedd troad”. Cychwynnodd y trafodaethau gyda WTI o ganlyniad i fater sydd wedi codi mewn perthynas â sut mae cerbydau sy'n ddarostyngedig i safon perfformiad Amser Troad yn cael eu diffinio yn y Cytundeb, a phriodoldeb yr amseroedd troad i wahanol fathau o gerbydau.

3.2. Yn wreiddiol, gosodwyd Amserau Troad a Datganiadau Dull o fewn y contract ar y sail y byddai'r Contractwr llwyddiannus yn gweithredu gorsafoedd trosglwyddo gwastraff ar draws y Bartneriaeth. Felly, yr unig ryngwyneb uniongyrchol gyda'r Contractwr fyddai Cerbydau Casglu Gwastraff (RCVs) sy'n danfon yn uniongyrchol i'r cyfleuster. Gosodwyd yr amser troad yn y contract ar 15 munud (30 munud yn ystod y Comisiynu). Tua rhan olaf y caffael, newidiodd y Bartneriaeth sgôp y contract, fel bod gweithrediad y gorsafoedd trosglwyddo gwastraff yn cael ei dynnu o’r sgôp, ac y byddai'n cael ei wneud gan yr awdurdodau partner eu hunain (neu ei gontractio ar wahân).

3.3. Mae'r mwyafrif o'r gwastraff yn cael ei ddanfon i'r safle mewn cerbydau cymalog Cerbyd Nwyddau Trwm (HGV) gyda “llawr symudol”. Yn y trafodaethau cychwynnol gyda’r Bartneriaeth, nododd WTI nad yw 15 munud yn ddigonol yn ffisegol i ddadlwytho’r HGVs “llawr symudol” ar y safle gan fod y broses ollwng ar ei phen ei hun yn cymryd mwy na 10 munud, a’u bod yn dehongli’r diffiniad o gerbyd awdurdod sy’n ddarostyngedig i safon perfformiad 15 munud i RCVs yn unig (h.y. cerbydau yn cludo yn uniongyrchol i’r safle yn unig), nid HGV's.

3.4. Fe drafodwyd y mater yn y Bwrdd Prosiect, a roddodd gyfarwyddyd i'r Rheolwr Contract Rhanbarthol gynnal trafodaethau gyda WTI i gytuno ar Amser Troad penodol i gerbydau HGV. Cytunwyd ar hyn, er ei bod yn amlwg bod rhaid i'r Bartneriaeth fod â rhywfaint o fecanwaith perfformiad yn y contract ar gyfer cludo gwastraff y Bartneriaeth i’r safle, a derbyniwyd nad oedd 15 munud yn gyraeddadwy mewn gwirionedd gan HGV's.

3.5. Yn dilyn cyfarwyddyd y Bwrdd Prosiect, cynhaliodd y Rheolwr Contract Rhanbarthol a Phrif Swyddog yr Awdurdod Arweiniol (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) gyfarfod agoriadol gyda WTI i wrando ar unrhyw gynnig y gallant ei wneud mewn perthynas ag

CYFRINACHOL

amseroedd troad. Cyflwynodd WTI gynnig ar gyfer amseroedd troad i HGV's yn seiliedig ar ddata rhwng dechrau mis Medi a chanol mis Hydref. Mae'r cynigion hynny bellach wedi dod i law yn ysgrifenedig gan WTI a bydd y Bwrdd Prosiect yn cynghori ar ymateb ffurfiol y Bartneriaeth. Mae'r Rheolwr Contract hefyd wedi ceisio arweiniad, gwybodaeth a chefnogaeth gan Drafodwr Llywodraeth Cymru (sydd â mynediad at arbenigwyr yn y maes hwn) ar yr un safon perfformiad mewn contractau tebyg eraill.

3.6. Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi'r trafodaethau a dirprwyo cytundeb unrhyw safonau perfformiad newydd yn y contract i'r Awdurdod Arweiniol.

Cynnydd yng Nghynhwysedd Tunnelledd Uchaf y Parc Adfer

3.7. Roedd ddogfennaeth cais cynllunio'r Parc Adfer yn cynnwys capasiti tunelledd uchaf o 200ktpa, ond mae gan y gwaith y gallu technegol i drin mwy o wastraff na'r ffigwr hwnnw. Gyda hynny mewn golwg, mae WTI wedi hysbysu'r Awdurdod ei fod yn ceisio cynyddu capasiti'r cyfleuster o 200ktpa i 232ktpa.

3.8. Gyda hynny mewn golwg, mae WTI wedi bod mewn trafodaethau anffurfiol gyda'r awdurdod cynllunio a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r Caniatâd Cynllunio a'r Drwydded Amgylcheddol, yn y drefn honno.

3.9. Mae angen cymeradwyaeth yr Awdurdod o fewn y contract i unrhyw newidiadau i'r caniatadau hynny. Yn dilyn cyngor gan eu hymgynghorwyr arbenigol, mae WTI o'r farn na fydd newid y caniatadau Cynllunio a Thrwydded yn broses anodd. Maent yn credu bod hyn yn gyntaf mewn perthynas â'r Drwydded Amgylcheddol - pan wnaed cais am y drwydded gychwynnol, seiliodd WTI yr holl baramedrau allweddol (megis allyriadau ayb.) ar y gwaith yn gweithredu ar gapasiti llawn, felly nid yw cynyddu'r trwybwn yn golygu unrhyw gynnydd yn y paramedrau amgylcheddol allweddol hynny. Bydd angen cyflwyno cais i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ond cred WTI y dylai hwn fod yn benderfyniad mewnol y CNC.

3.10. O ran cynllunio, mae WTI mewn trafodaethau gyda'r Awdurdod Cynllunio ac yn aros am arweiniad. Cred WTI mai'r ystyriaeth gynllunio fwyaf arwyddocaol fyddai effaith priffyrdd, ac yn seiliedig ar y data cynnar ar nifer y symudiadau cerbydau ar ac oddi ar y safle, credant na fyddai'r cynnydd i 232ktpa yn fwy na'r amcangyfrifon a ddarparwyd yn y cais cynllunio.

3.11. Mae'r Bartneriaeth bellach yn aros am wybodaeth gan WTI mewn perthynas â'r hyn y byddai'r newid mewn capasiti yn ei olygu i'r Bartneriaeth, a sut mae'n ceisio symud ymlaen ag ef. O safbwynt y Bartneriaeth, gallai'r cynnydd mewn capasiti arwain at fuddion wrth iddo gynyddu'r incwm y gall WTI ddod i mewn bob blwyddyn, gan gynyddu'r siawns y bydd yr Awdurdod yn rhannu yn yr incwm ychwanegol hwnnw, sef mecanwaith "cyfran enillion" y Contract. Fodd bynnag, mae'r Rheolwr Contract Rhanbarthol wedi ceisio cyngor arbenigol gan yr ymgynghorwyr

CYFRINACHOL

cyfreithiol, technegol a chyllid ar holl effeithiau cytuno i'r cynnydd mewn capasiti i sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau annisgwyl i'r cynnydd.

3.12. Bydd y Prif Weithredwr Arweiniol a'r Rheolwr Contract Rhanbarthol yn adrodd yn ôl i'r Cydbwyllgor gydag adroddiad llawn unwaith y derbynnir cynigion llawn a chyngor arbenigol WTI. Dylid nodi, oherwydd natur sensitif y pwnc, bod unrhyw drafodaethau'n cael eu cadw'n hollol gyfrinachol ar hyn o bryd.

Gwastraff Awdurdodau Eraill

3.13. Yn ddiweddar, cysylltodd contractwr trin gwastraff Cyngor Sir Powys, Potters Waste Management, â'r Rheolwr Contract i ofyn a fyddai'r Bartneriaeth yn barod i lunio cytundeb i drin gwastraff gweddilliol Gogledd Powys.

3.14. Mae'r Rheolwr Contract Rhanbarthol wedi edrych i mewn i fanylion hyn o fewn y contract a hefyd wedi trafod gyda Thrafodwr y Prosiect, Mark Turner (sydd wedi gallu ceisio barn cyfreithwyr masnachol arbenigol). Tra gallai cytundeb o'r fath gyda Potters/Powys fod yn ddeniadol, ni fyddai'n bosibl ymrwymo i gytundeb o'r fath yn uniongyrchol. Diffinnir “Gwastraff Contract" yn yn y Contract fel gwastraff sy'n tarddu o'r hyn sy'n elwir yr "Ardal Weinyddol", sef yn ei hanfod, ffin y bartneriaeth (y pum awdurdod partner). Mae hyn yn golygu nad oes gennym felly'r gallu i weithredu fel “brocer” a phrynu/gwerthu gwastraff sy'n tarddu o'r tu allan i ffin y Bartneriaeth, oni bai bod y Bartneriaeth o dan ein lefelau Isafswm Tunnell Gwarantedig (GMT) – nid ydym ar y lefel honno ar hyn o bryd.

3.15. Er bod hyn yn golygu na all y Bartneriaeth ymrwymo i unrhyw gytundeb uniongyrchol â Potters neu Powys, daeth yn amlwg trwy drafodaethau â Llywodraeth Cymru (LIC) eu bod yn awyddus i agor trafodaethau gyda WTI a Viridor (perchnogion/gweithredwyr Cyfleuster Parc Trident Caerdydd) ynglŷn â defnyddio unrhyw gapasiti yn y cyfleusterau hyn ar gyfer gwastraff gan awdurdodau nad oes ganddynt gontractau ar waith. Bydd y Rheolwr Contract Rhanbarthol yn diweddaru'r Cydbwyllgor ar unrhyw gynnydd ar y mater.

**4. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor: -

4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad.

4.2. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Awdurdod Arweiniol gytuno ar safonau perfformiad contractiol newydd gyda WTI ar gyfer cyflenwadau cerbydau.

**5. GOBLYGIADAU ADNODDAU**

5.1. Fel y nodwyd yn yr adroddiad.

**6. EFFAITH GWRTH-DLODI**

CYFRINACHOL

Amherthnasol

**7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**
Amherthnasol

**8. EFFAITH CYDRADDOLDEB**
Amherthnasol

**9. GOBLYGIADAU PERSONÉL**
Amherthnasol

**10. ANGEN YMGYNGHORIAD**
Dim.

**11. YMGYNGHORIAD WEDI EI GYNNAL**
Dim

**DEDDF MYNEDIAD LLYWODRAETH LEOL I WYBODAETH 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen
Rheolwr Contract
Steffan.r.owen@flintshire.gov.uk
07917 306462

CYFRINACHOL

Mae'r dudalen hon yn wag yn bwrpasol